OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2362 (Cy.248) (C.83)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a gynhwysir yn adran 40(2)(b) o Ddeddf Iechyd 2009(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 2009.

**Diwrnod penodedig**

**2.** 1 Chwefror 2012 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym adran 22 o'r Ddeddf i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

27 Medi 2011

(**1**) 2009 p.21.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Iechyd 2009 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym, ar 1 Chwefror 2012, adran 22 o'r Ddeddf (pŵer i wahardd gwerthiannau o beiriannau gwerthu) i'r graddau nad yw wedi ei dwyn i rym eisoes.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau o'r Ddeddf a restrir yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru gan y gorchymyn cychwyn O.S. 2010/930 (Cy.95) (C.63).

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 19 | 1.4.2010 (i'r graddau y mae'n berthynol i baragraffau 14 i 17 a 18 i 19 o Atodlen 3). |
| Atodlen 3, paragraffau 14 i 17 | 1.4.2010. |
| Atodlen 3, paragraffau 18 a 19 | 1.4.2010. |

Mae'r darpariaethau o'r Ddeddf a restrir yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru gan orchmynion cychwyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif yr O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 36 | 19.1.2010 | 2010/30 (C.5). |
| Atodlen 6 i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r diddymiad mewn perthynas â Deddf Plant a Phobl Ifanc1933 (c. 12), ac adran 38 i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r ddarpariaeth honno. | 1.10.2011 | 2010/1068 (C.70) fel y'i diwygiwyd gan 2011/1255 (C.49). |
| Atodlen 6 i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r diddymiad mewn perthynas ag adran 14(12) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 (c. 36), ac adran 38 i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r ddarpariaeth honno. | 6.4.2012. | 2010/1068 (C.70) fel y'i diwygiwyd gan 2011/1255 (C.49). |

Mae amryw o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Lloegr gan O.S. 2010/30 (C.5); O.S. 2010/779 (C.52); O.S.2010/1068 (C.70); O.S. 2010/1863 (C.95) ac O.S.2011/1255 (C.49).